

## Pen-y-lan: Croesfan Sebra Colchester Avenue

### Adroddiad Ymgynghori

**Rhif y Project: CO17230**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 08/03/2018 a 22/03/2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol os yw'n bosibl.

O'r 45 eiddo, a'r ddau hysbysiad safle, cafwyd tri ymateb.

- |   |  |
|---|--|
| 2 | O blaid y cynllun a rhoesant sylwadau/awgrymiadau ychwanegol |
| 1 | a roddodd awgrymiad  |

Crynoir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgriflen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

#### **Argymhelliad**

**O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen gyda'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.**

#### Mater – twmpath ffordd / arafu traffig

*“Byddem yn gofyn am beidio â chynnwys elfen ddyrchafedig y groesfan yn y project.”*

*“nid yw'r arafu a'r cyflymu cyson y gwneud lles o ran swm y tanwydd a ddefnyddir/llygredd tanwydd. Rwy'n gweld bod fy sylw ar baratoi ar gyfer yr ergyd yn hytrach na chadw llygad ar gerddwyr. Gwaethygir y problemau hyn gan y ffaith nad oes cysondeb ledled y ddinas o ran pa mor hegar yw'r twmpathau hyn.”*

*Dywedodd preswlydd “Fel defnyddiwr ffordd, yn fy mhrofiad i, mae'r mesurau arafu hyn wedi golygu nad yw llawer o ffyrdd yng Nghaerdydd yn addas i'r diben. Er gwaethaf yr hyn rwy'n siŵr y dywedwch chi, maent yn difrodi cerbydau ac yn achosi anghysur a phoen i feddianwyr sydd â phroblemau iechyd.”*

*Dywedodd preswlydd “yn agos ar Pantbach Road mae twmpath cyflymder y mae angen lleihau cyflymder ar ei gyfer ond nad yw'n annifyr gyrru drosto. Os oes rhaid iddyn nhw fod ar y ffyrdd, beth am sicrhau eu bod i gyd fel hyn?”*

Mae arafu traffig yn ffordd effeithiol o leihau damweiniau ffordd. Nid ar chwarae bach y penderfynir gosod rampiau gan y deallir eu bod yn gallu bod yn anghyfleus i yrwyr diogel, cyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. Yn anffodus gwelwyd mai'r rhain yw'r unig fesur effeithiol y gellir eu defnyddio i sicrhau bod ffyrdd yn ddiogel, yn

enwedig ar gyfer defnyddwyr agored i niwed megis cerddwyr a beicwyr hen ac ifanc. Mae hyn oherwydd mai ar hyn o bryd, rampiau yw'r unig fesur sy'n gwella ymddygiad gyrru'r lleiafrif sy'n gyrrau'n anniogel, anghyfrifol a diofal yn effeithiol ac yn sylweddol. Bydd y traffig yn gyrru ar gyflymder arafach a fydd yn creu amgylchedd priffordd mwy diogel i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Awgrymodd strategaeth ansawdd aer cenedlaethol ddiweddaraf y Llywodraeth y gallai tynnu twmpathau ffordd gael ei ystyried fel dewis yn lle codi tâl mewn Parthau Aer Glân, fodd bynnag mae grwpiau diogelwch ffyrdd wedi codi pryderon y gallai hyn arwain at wrthdrawiadau a gostyngiad o ran diogelwch ffyrdd. Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau gan Gyngor Caerdydd i waredu'r twmpathau ffordd.

Bydd cynllun y byrddau arafu yn cynnwys llethrau ramp o 1 mewn 14 gyda hyd gwastad o 6m a hyd ramp o 75mm. Dylai hyn yn arwain at ramp sy'n effeithiol wrth leihau cyflymderau cerbydau ac, os gyrrir drosto ar gyflymder priodol, ni ddylai achosi anghysur i deithwyr yn y cerbyd.

### Mater - Croesfan Sebra

Dywedodd preswylydd *"Yn fy mhrofiad i fel cerddwr, mae'r rhain yn achosi dryswch, yw'r cerbyd yn arafu i stopio wrth y groesfan neu'n arafu i fynd dros y twmpath?"*

Mae Rheol 19 y Rheolau'r Ffordd Fawr yn cynnig cyngor defnyddiol i gerddwyr wrth ddefnyddio croesfannau sebra. Mae hyn yn dweud "Rhowch ddigon o amser i draffig eich gweld a stopio cyn i chi ddechrau croesi. Bydd angen mwy o amser ar gerbydau pan fo'r ffordd yn llithrig. Arhoswch tan mae'r traffig wedi stopio o'r ddau gyfeiriad neu mae'r ffordd yn glir cyn croesi. Cofiwch nad oes rhaid i draffig stopio tan mae rhywun wedi camu ar y groesfan. Parhewch i edrych y ddwy ffordd gan wrando rhag ofn nad yw gyrrwr neu feiciwr wedi'ch gweld ac yn ceisio mynd heibio cerbyd sydd wedi stopio.

### Mater – Goleuadau Hammond Way/Colchester Avenue

Dywedodd preswylydd *"Mae traffig yn nesáu at y rhain yn gyflym ac rwyf wedi gweld cerbydau yn mynd trwy oleuadau coch nifer o weithiau. Hoffwn i'r adran hon gael ei dyrchafu neu i gamera cyflymder/traffig gael ei osod. Hefyd nid yw trefn y goleuadau yn rhoi digon o amser i draffig yrru trwy'r gyffordd cyn i'r dyn gwyrdd oleuo i gerdded ar draws y ffordd. Gall hyn achosi plant i feddwl ei bod yn ddiogel croesi pan fo traffig yn dal i groesi'r gyffordd. Dwyseir hyn gan bobl yn gyrru trwy oleuadau coch. Mae problemau goryrru ar adegau ar Colchester Avenue sy'n ffordd syth gyflym. Rwyf hefyd wedi gweld traffig yn dod o Hammond Way a'r dafarn/siopau gan ymwthio allan i ymuno â Colchester Avenue a'r goleuadau'n goch. Mae ceir hefyd yn parcio y tu allan i'r garej ceir ar Colchester Avenue naill ai ar y palmant yn llawn neu ar y llinellau melyn dwbl. Mae hyn yn rhwystro gyrrwyr a cherddwyr rhag gweld y gyffordd ac mae'n creu ardal risg. A fyddai modd cael mwy o wardeniaid parcio'n patrolio'r ardal ac anfon nodyn i'r garej i stopio eu cwsmeriaid rhag parcio'n anghyfreithlon yn y modd hwn."*

Nis y Cyngor sy'n gweithredu camerâu cyflymder a chamerâu goleuadau coch sefydlog, rheolir y rhain gan GoSafe ([www.gosafe.org.uk](http://www.gosafe.org.uk)). Mae pryderon cymunedol ynghylch gyrru trwy oleuadau coch wedi'u hanfon i GoSafe iddynt eu hasesu, maent

wedi dweud nad yw'r lleoliad hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer camera golau coch.

Mae cyffordd sgwâr felen wedi'i gosod yn y lleoliad hwn a fydd yn helpu i gadw'r gyffordd yn glir rhag traffig sy'n ciwio a gallai hyn wellau ymddygiad gyrwyr wrth yrru trwy'r gyffordd.

Mae'r sylwadau ynghylch gorfodi cyfyngiadau parcio wedi eu hanfon i'r Tîm Gorfodi Sifil at eu sylw. Bydd y Swyddogion Gorfodi Sifil yn gallu gorfodi cyfyngiadau parcio h.y. lle mae llinellau melyn dwbl neu linellau melyn sengl, ond ni fyddant yn gallu gorfodi parcio ar y droedffordd gan fod hon yn fater i'r Heddlu.

#### Cefnogaeth ar gyfer y cynllun

*Mae'n ymddangos bod croesfan sebra yn ychwanegiad call ond hoffwn wrthwynebu defnyddio twmpathau cyflymder.*


*Er fy mod o blaid y groesfan sebra, mae gen i bryderon o hyd am gyflymder traffig sy'n teithio tuag at y gyffordd goleuadau traffig ar Hammond Way/Colchester Avenue.*

**Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.**

A Proud Capital  
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.



**Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.**

Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.